Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad ar y Bil Bwyd (Cymru) Drafft
This response was submitted to the consultation on the Draft Food (Wales) Bill
FB016
Ymateb gan: | Response from: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Betsi Cadwaladr University Health Board

| | |
|---|---|
| **1. Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion cyffredinol y mae'r Bil yn ceisio'u cyflawni?** | Ydym, mae angen fframwaith mwy integredig a chydgysylltiedig arnom i ddatblygu system fwyd gynaliadwy i Gymru er mwyn gwella iechyd ein poblogaeth, ac rydym yn croesawu hynny. Os ydym am leihau'r baich y mae afiechydon sy'n gysylltiedig â deiet yn ei roi ar fywydau pobl, ar ddisgwyliad oes a'r GIG, mae angen dull gweithredu radical a thymor hir i ailwampio system fwyd y DU o un lle mae galw mawr am gynhyrchu bwydydd sy'n cynnwys llawer o fraster, siwgr a halen yn y diwydiant bwyd, i un sy'n anelu'n fwy at baratoi bwyd gartref. Bydd angen i fecanwaith a manylion y prif nodau a'r nodau eilaidd a sut maent yn berthnasol i sefydliadau yn y sector cyhoeddus, gael eu llunio'n ofalus yn unol ag anghenion a chyfyngiadau ehangach y rhanddeiliaid. Bydd hyn yn gofyn am ragor o ymgysylltu â rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r dyheadau.<br><br>Mae llunio polisïau sy'n ymwneud â bwyd yn fater cymhleth, ac ystyried yr amrywiaeth o adrannau sy'n gysylltiedig, mae angen i ni fabwysiadu 'Dull Gweithredu ar sail System Gyfan' a sicrhau bod polisi bwyd yn cael ei integreiddio ar draws sectorau ac adrannau. Tynnodd pandemig COVID-19 sylw at gyfle i ailadeiladu'r system fwyd mewn ffordd sy'n cefnogi democratiaeth fwyd, gan roi gwell gwybodaeth a chyfleoedd i ddefnyddwyr gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, ar lefel leol a chenedlaethol, ynghylch sut dylid cynhyrchu bwyd. Dylid manteisio ar hyn a'i integreiddio yn y Bil. |
| **2. Yn eich barn chi, a oes angen y ddeddfwriaeth hon?**<br><br>**Oes modd i chi roi rhesymau dros eich ateb?** | Oes, mae hwn yn ddarn hanfodol o ddeddfwriaeth ac yn ogystal â helpu i sicrhau atebolrwydd, gyda mesurau priodol ar waith, bydd yn helpu i lunio a chynnal ffocws cenedlaethol ffurfiol ar gyfer yr angen parhaus i ddatblygu ein systemau bwyd a diogelu'r cyflenwad bwyd. Bydd y ddeddfwriaeth yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno Dull Gweithredu ar sail System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach drwy gydnabod rôl partneriaid mewn polisi bwyd a sut y gall hyn effeithio ar iechyd a lles. Yn aml, mae llawer o bartneriaid yn rhoi'r cyfrifoldeb am bwysau nad yw'n iach ar y GIG ac yn methu â chydnabod y rôl maen nhw'n ei chwarae yn y system sy'n achosi pwysau nad yw'n iach. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn cryfhau'r gydnabyddiaeth fod gan bob partner rôl i'w chwarae mewn polisi bwyd.<br><br>Os caiff y ddeddfwriaeth ei gweithredu, bydd angen cael adnoddau priodol i sicrhau nad yw'n creu beichiau ychwanegol ar sector cyhoeddus sydd eisoes dan bwysau ac sy'n aml yn delio â sefyllfaoedd argyfyngus, oherwydd y methiannau tymor hir yn y system i atal anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol. |
| **3. Rhowch eich barn am gynnwys y Nodau Bwyd** | Mae cynnwys y nodau bwyd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth bresennol a'r dyheadau sy'n bwysig yn ein barn ni. Elfen hollbwysig y nodau fydd y safon a ddefnyddiwn i asesu camau rhesymol. Dylai'r nodau fod yn rhai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Perthnasol, Uchelgeisiol a Synhwyrol), ar hyn o bryd nid yw'n glir sut y bydd y broses gyflawni'n cael ei hasesu yn erbyn y nodau. Os na fydd y rhain yn glir, mae perygl y |

| | |
|---|---|
| **yn y Bil fel ffordd o ategu'r amcanion polisi.** | gallai cyrff cyhoeddus barhau i honni bod y camau gweithredu presennol yn cyfrannu at y nodau hyn ac na fydd unrhyw wahaniaeth sylweddol yn cael ei wneud.<br><br>Os yw'r nodau'n cynnwys targedau, mae'n hanfodol bod y rhain yn gydnaws ar draws meysydd polisi i sicrhau dull gweithredu integredig yn ogystal â lleihau'r baich ar ofynion adrodd y sector cyhoeddus. Mae'r meysydd polisi hyn yn cynnwys Pwysau Iach: Cymru Iach, deddfwriaeth yr Amgylchedd Bwyd, Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru), caffael bwyd yn y sector cyhoeddus a'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru). |
| **4. Ydych chi'n cytuno â chynnwys Prif Nod Bwyd wedi'i ategu gan Nodau Bwyd Eilaidd?** | Ydym, bydd yn bwysig darparu canllawiau ychwanegol ar y prif nodau a'r nodau eilaidd. Mae risg bod modd dehongli'r rhain mewn sawl ffordd, er enghraifft mae addysg yn lleoliad ond hefyd yn ffordd o sicrhau newid mewn ymddygiad (er yn aneffeithiol fel ymyriad ar ei ben ei hun). Bydd darparu canllawiau clir ar y nodau eilaidd a'r camau gweithredu sy'n ofynnol i gael newid yn sicrhau bod sefydliadau partner yn glir ynghylch yr hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn disgwyl gweld gweithredu yn ei gylch er mwyn sicrhau newid. Fel arall, gallai partneriaid nodi bod camau gweithredu sy'n bodoli eisoes yn cyflawni'r gofynion deddfwriaethol pan nodir bod angen y ddeddfwriaeth oherwydd nad yw'r camau gweithredu ar bolisi bwyd yn y mannau y mae angen iddynt fod yng Nghymru. |
| **5. A oes meysydd eraill / gwahanol ddylai gael eu cynnwys yn y Nodau Bwyd yn eich barn chi?** | Byddai angen i'r camau gweithredu y dylid eu cymryd yn erbyn pob nod fod yn glir. Bydd gwahanol bartneriaid yn dehongli'r nodau'n wahanol yn dibynnu ar eu cefndir a'u gwybodaeth broffesiynol, felly bydd angen arweiniad clir ar y mathau o gamau gweithredu sydd eu hangen. Er enghraifft, gallai nod yr Amgylchedd gynnwys cynhyrchu bwyd, bwyta bwyd (gan orgyffwrdd â gwastraff bwyd), defnydd tir, bioamrywiaeth, ymwrthedd gwrthficrobaidd ac ati. Gallai hefyd ystyried ein hamgylchedd adeiledig, amgylcheddau bwyd manwerthu, amgylcheddau bwyd mewn gwahanol leoliadau (ysgolion, cartrefi, gweithleoedd). Mae gorgyffwrdd cryf rhwng yr amgylchedd a gwastraff bwyd a bydd cysylltiad agos rhwng y ddau â newid yn yr hinsawdd. Mae perygl y gallai rhai nodau fynd yn groes i'w gilydd, er enghraifft, os oedd gan Nod Bwyd Amgylcheddol darged i leihau allyriadau $CO_2$ wrth gynhyrchu a bwyta bwyd. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai'r ffordd orau o wneud hyn fyddai drwy newid yr hyn y mae pobl yn ei fwyta, gan annog y boblogaeth i symud i ddeiet sy'n seiliedig ar blanhigion yn hytrach na bwyta bwyd sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol (sy'n rhan o'r nod llesiant economaidd)[1]. Rydyn ni'n gwybod bod yr Her Driphlyg, sef Covid-19, Brexit a Newid yn yr Hinsawdd[2] wedi cael effaith negyddol ar ddiogelu'r cyflenwad bwyd, ac efallai y dylid cael mesur i sicrhau cadwyni bwyd mwy gwydn a fyddai'n cael effaith ar iechyd a materion cymdeithasol. |

[1] Environmental Impacts of Food Production - Our World in Data

[2] https://phw.nhs.wales/publications/publications1/rising-to-the-triple-challenge-of-brexit-covid-19-and-climate-change-for-health-well-being-and-equity-in-wales/

| | |
|---|---|
| **6. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y Nodau Bwyd, gan gynnwys goblygiadau'r cynigion o ran adnoddau a sut mae modd lleihau'r rhain?** | Yn amlwg, mae angen cynyddu ac addasu'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym ar draws pob sector i wella ac adeiladu ar ein system fwyd, ond mae'n debygol y bydd angen rhywfaint o adnoddau. Efallai na fydd yn bosibl nodi'r goblygiadau o ran adnoddau hyd nes y bydd nodau bwyd wedi'u gosod yn fwy pendant. Cydnabyddir bod cynnwys y nod addysg yn elfen allweddol o ran cefnogi'r cyhoedd i wneud dewisiadau bwyd iachach a mwy cynaliadwy. Dylid cydnabod hefyd na ddylai hyn fod yn fater i'r unigolyn yn unig a dylid cydnabod bod newid yr amgylchedd i sicrhau bod gwneud y dewis iach yn ddewis hawdd, hefyd yn eithriadol o bwysig. |
| **7. Rhowch eich barn am gynnwys targedau yn y Bil fel ffordd o fesur sut mae'r Nodau Bwyd yn cael eu datblygu.** | Byddem yn cytuno â'r cynnig hwn, gan fod hyn yn cyd-fynd ag egwyddor gosod nodau. Ond, rhaid ystyried yn ofalus a oes modd cyflawni'r targedau. Mae'r datganiad '*Cyn gwneud rheoliadau sy'n gosod neu'n diwygio targed, rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon bod modd cyrraedd y targed, neu'r targed diwygiedig*,' yn awgrymu mai dim ond targedau cyraeddadwy a osodir. Mae'n amlwg nad yw'n briodol gosod nodau amhosibl ond mae'r ffin yn denau rhwng gosod nodau cyraeddadwy/hawdd y mae Gweinidogion Cymru yn gwybod y gellir eu cyflawni a gosod nodau i gael effaith sylweddol. Mae angen mynd i'r afael â'r argyfwng gordewdra yng Nghymru ac efallai y bydd angen i rai targedau fod yn heriol (er bod modd eu cyflawni) i lawer o sectorau. Hefyd, dylid ystyried sicrhau bod y targedau'n mesur y broses cyflawni yn erbyn y nodau y cytunwyd arnynt. |
| **8. Ydych chi'n cytuno â'r broses ar gyfer gosod targedau?** | Ydym, rydym yn cytuno â'r broses ar gyfer gosod targedau, ac rydym yn arbennig o gefnogol i'r gofyniad i gael elfen annibynnol wrth osod targedau. Dylid drafftio'r targedau hyn mewn ymgynghoriad â sefydliadau cyhoeddus, yn enwedig ym meysydd arlwyo, deieteg, caffael a chyllid. Yn ogystal, mae angen i'r targedau fod yn rhai CAMPUS a chael diffiniadau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. |
| **9. Ydych chi'n credu bod y mecanweithiau adrodd a nodir yn y Bil drafft yn darparu digon o atebolrwydd a chwmpas ar gyfer craffu?** | Er bod y Bil yn nodi'n glir y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyflawniadau yn erbyn targedau ac yn egluro pan na fydd targedau'n cael eu cyrraedd, nid yw'n glir pwy fydd yn atebol os na chyrhaeddir y targedau. Gellid cynnig eglurhad pellach ar rôl cyrff cyhoeddus, y Comisiwn Bwyd a rhanddeiliaid ehangach a sut y cânt eu dal i gyfrif. Os ydym wedi ymrwymo i fabwysiadu dull gweithredu ar sail system gyfan o ymdrin â pholisi bwyd a phwysau iach, mae angen i ni sicrhau y caiff y system ei dal yn atebol pan na fydd y targedau'n cael eu cyflawni. |
| **10. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y targedau, gan gynnwys goblygiadau'r cynigion o ran adnoddau** | Mae gorbwysau a gordewdra yn prysur ddod yn brif ffactorau sy'n achosi blynyddoedd o fyw mewn iechyd gwael, gydag anabledd neu farwolaeth gynnar. Mae gorbwysau neu ordewdra yn cynyddu ein risg o nifer o glefydau gan gynnwys diabetes, clefyd y galon, canser a strôc, a gall waethygu effaith cyflyrau eraill megis arthritis. Tynnodd pandemig COVID-19 sylw hefyd at y risg bosibl o glefydau heintus, gyda'r rheini sy'n ordew mewn mwy o berygl o gael canlyniadau gwaeth. Yng Nghymru ar hyn o bryd, mae dros hanner y boblogaeth oedolion dros bwysau neu'n ordew; mae bod dros bwysau yn normal erbyn hyn. Mae arwyddion eisoes y bydd |

| | |
|---|---|
| **a sut mae modd lleihau'r rhain?** | y sefyllfa'n gwaethygu'n sylweddol os na allwn newid hyn. Mae 1 plentyn o bob 8 dros ei bwysau neu'n ordew erbyn iddo gychwyn yn yr ysgol. Rydym yn gwybod, hyd yn oed yn ystod plentyndod, ei bod yn anodd gwrthdroi gordewdra a bod y tebygolrwydd i ni fod dros bwysau neu'n ordew yn cynyddu wrth i ni fynd yn hŷn. Bydd hyn yn arwain at fwy o wariant gan y GIG ac ansawdd bywyd gwaelach ac, yn y tymor hwy, mae angen i newidiadau ddigwydd yn gynt. Er ein bod yn parhau i fod yn ymwybodol o'r amser sydd ei angen i ymgorffori polisïau newydd a mesur canlyniadau, mae adolygiadau pum mlynedd yn teimlo'n rhy hir. Byddem yn chwilio am sicrwydd y byddai pwyntiau gwirio ychwanegol yn digwydd i sicrhau y gellid gwneud unrhyw addasiadau rhesymol pe na bai'r gwaith o gyflawni'r targed ar y trywydd iawn neu pe bai unrhyw ganlyniadau anfwriadol negyddol. Mae angen ystyried hefyd y goblygiadau posibl o ran adnoddau i sefydliadau a fydd yn gorfod adrodd am sut maent yn cyflawni'r targedau. |
| **11. Beth yw eich barn chi am yr angen i gael Comisiwn Bwyd i Gymru?** | Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cefnogi'r cynnig i gael Comisiwn Bwyd i Gymru. Byddai angen i'r Comisiwn ystyried sut y bydd yn gweithio ochr yn ochr â grwpiau presennol i atal dyblygu a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Dylai'r Comisiwn hefyd ystyried sut y gall weithio gyda grwpiau presennol a'u cefnogi i gyflawni eu nodau oherwydd eu bod yn cyd-fynd yn dda â'r nodau bwyd. |
| **12. Ydych chi'n cytuno â nodau a swyddogaethau'r Comisiwn Bwyd i Gymru? Os nad ydych, pa newidiadau fyddech chi'n eu hawgrymu?** | Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cytuno â'r nodau a'r swyddogaethau a gynigir ar gyfer y Comisiwn Bwyd i Gymru. Gan fod y Bil yn cynnwys nodau bwyd, dylid ystyried y geiriad a ddefnyddir yn y rhan hon o'r ymgynghoriad. Efallai y bydd defnyddio'r geiriau amcanion a swyddogaeth yn fwy priodol.<br><br>Dylai rôl y Comisiwn o ran craffu ar gynlluniau lleol fod yn gliriach. Byddai'n ddefnyddiol deall a fyddai disgwyl i'r comisiwn roi cyngor ar y cynnwys neu gynnig rôl gryfach o ran cymeradwyo'r cynlluniau hyn. |
| **13. A ydych yn cytuno â maint aelodaeth y Comisiwn Bwyd a'r broses o benodi ei aelodau?** | Wrth benodi aelodau, dylid ystyried cynrychiolaeth ddigonol ar draws pob sector gan gynnwys y diwydiant bwyd. Ond, dylid ystyried y risg o wrthdaro rhwng buddiannau wrth geisio ymgysylltu â'r diwydiant bwyd. Er y cydnabyddir y bydd angen i'r Comisiwn gael aelodau sydd ag amrywiaeth o sgiliau a phrofiad, byddai'n fuddiol sicrhau bod trawstoriad o unigolion yn aelodau, er enghraifft, manwerthu, gweithgynhyrchu, addysg, iechyd, amaethyddiaeth a'r amgylchedd, ac y dylid dewis cynrychiolwyr o bob rhan o Gymru. |
| **14. Beth yw eich barn am y cynnig y gall y cadeirydd a'r aelodau wasanaethu am gyfnod o** | Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cytuno bod y cynnig hwn yn briodol ac ystyried yr amserlenni arfaethedig ar gyfer adolygiadau a gyhoeddir bob pum mlynedd. |

| | |
|---|---|
| **bum mlynedd fan bellaf ac y gellir ailbenodi unigolyn yn gadeirydd neu'n aelod unwaith yn unig? Ydych chi'n credu bod hyn yn briodol?** | |
| **15. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y Comisiwn Bwyd, gan gynnwys goblygiadau'r cynigion o ran adnoddau a sut mae modd lleihau'r rhain?** | Fel y trafodwyd yn gynharach, gellid lleihau'r goblygiadau o ran adnoddau i'r Comisiwn drwy ddefnyddio arbenigedd y grwpiau presennol sy'n gweithio ar yr agenda hon ledled Cymru. |
| **16. Yn eich barn chi, a oes angen strategaeth fwyd genedlaethol?** | Oes, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cytuno'n gryf bod angen strategaeth fwyd genedlaethol. Mae angen newid radical yn y system fwyd er mwyn gwella iechyd y cyhoedd a lleihau salwch sy'n gysylltiedig â deiet yng Nghymru. Dylai hyn fod yn amlwg yn y strategaeth. Dylid ysgrifennu'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol gydag arbenigwyr ar draws disgyblaethau i sicrhau gweledigaeth gyfannol ar gyfer bwyd yng Nghymru nad yw'n arwain at ganlyniadau anfwriadol mewn meysydd eraill.<br><br>Bydd angen ystyried sut y bydd darparwyr yn y sector preifat (manwerthwyr, cynhyrchwyr, ac ati) yn cael eu cynnwys fel rhan o'r strategaeth fwyd genedlaethol. Yn benodol, manwerthwyr a gweithgynhyrchwyr mawr sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Dylai fod yn glir sut y bydd deddfwriaeth yn cael ei gweithredu pan fydd cwmni'n gorfod dilyn deddfwriaeth wahanol yn y pedair gwlad ar draws y DU. |
| **17. Ydych chi'n credu bod digon o gydlyniad/cydgysylltiad yn strategaethau presennol Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â 'bwyd'?** | Rydym yn cydnabod bod hwn yn faes cymhleth, ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn teimlo y byddai'n amserol adnewyddu a chysoni'r strategaethau hyn ochr yn ochr â datblygu'r Bil hwn. Dangosodd adolygiad yn Lloegr fod 19 o adrannau gwahanol y Llywodraeth yn ymwneud â pholisi bwyd. Dylid mapio a deall hyn o fewn cyd-destun polisi a Llywodraeth Cymru i sicrhau dull gweithredu ar sail system gyfan.<br>Mae strategaethau a deddfwriaeth allweddol yn cynnwys:<br>• Bil Amaethyddiaeth (Cymru)<br>• Cymru Iachach<br>• Fframwaith Clinigol y GIG<br>• Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach |

| | |
|---|---|
| | • Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan |
| **18. A yw'r Bil drafft yn gwneud digon i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael cyngor ac yn ymgynghori ar y strategaeth cyn iddi gael ei llunio? Os nad yw, pa ddulliau eraill y byddech chi'n eu rhoi ar waith?** | Yn ogystal â gofyn am gyngor gan y comisiwn a gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, byddem yn argymell mynd ati'n rhagweithiol i wahodd ymgynghori ac ymgysylltu gan gyrff proffesiynol allweddol a sefydliadau cymunedol (statudol a gwirfoddol). Dylai gwaith Synnwyr Bwyd Cymru ar Ddinasoedd a Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a sefydlu partneriaethau bwyd lleol yng Nghymru gael ei gydnabod a'i ddangos. Byddem yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r strategaeth. |
| **19. A ydych yn credu bod darpariaethau'r Bil drafft sy'n ymwneud ag <u>adrodd ar</u> y strategaeth fwyd genedlaethol yn ddigonol? Os nad ydych, pa newidiadau yr hoffech chi eu gweld?** | Mae adroddiadau bob dwy flynedd yn awgrym rhesymol, dylid ystyried sut mae adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r cyhoedd, a gellid ystyried defnyddio adroddiadau gyda ffeithluniau i sicrhau bod yr adroddiadau'n hawdd eu deall ac yn ystyrlon. Dylai'r Bil hefyd amlinellu'r dull gweithredu pe bai'r strategaeth fwyd yn arwain at ddiffyg canlyniadau ar ôl y cyfnod adrodd cyntaf. |
| **20. A ydych yn credu bod darpariaethau'r Bil drafft sy'n ymwneud ag <u>adolygu'r</u> strategaeth fwyd genedlaethol yn ddigonol? Os nad ydych, pa newidiadau yr hoffech chi eu gweld?** | Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cydnabod bod angen cynllun tymor hir er mwyn sicrhau newid. Er mwyn sicrhau bod amser priodol i alluogi gweithredu newid a chasglu tystiolaeth o ganlyniadau, mae pum mlynedd yn gyfnod priodol ar gyfer adolygu'r strategaeth. |
| **21. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y Strategaeth Fwyd Genedlaethol, gan** | Mae angen i'r strategaeth gynnwys a chydnabod gwybodaeth a sgiliau am faeth ochr yn ochr â'r ddarpariaeth fwyd a faint o fwyd sydd ar gael (fel rhan o'r system ehangach a'r nod yn y pen draw o sicrhau bwyd iach i bawb). |

| | |
|---|---|
| **gynnwys goblygiadau'r cynigion o ran adnoddau a sut mae modd lleihau'r rhain?** | Mae angen manylion yn y dogfennau ymgynghori ynghylch 'rhoi sylw i' ddeddfwriaeth gwahaniaethu, er enghraifft, gwahaniaethu yn erbyn menywod/plant, ond a roddwyd ystyriaeth i drawsnewid hyn yn gadarnhaol? Er enghraifft, gwobrau economaidd i fanwerthwyr yng Nghymru sy'n cynnig ffrwythau am ddim i blant ac yn stocio byrbrydau sy'n iachach, cyllid i alluogi manwerthwyr i adeiladu mannau chwarae a rhoi dŵr am ddim i frodyr a chwiorydd wrth i fam fwydo ei baban ar y fron? |
| **22. Yn eich barn chi, a oes angen cynlluniau bwyd lleol?** | Oes, bydd hyn yn ysgogi ac yn galluogi camau gweithredu a blaenoriaethau sy'n cael eu llywio'n lleol, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn agos â'r strategaeth genedlaethol a'r Bil. Mae'n bosibl y bydd yn anodd cael y capasiti i gefnogi cynlluniau lleol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Er enghraifft, yma yng Ngogledd Cymru, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithio ochr yn ochr â chwe ardal Awdurdod Lleol. Pe bai pob un yn creu ei gynllun lleol ei hun, gallai staff bwrdd iechyd ei chael hi'n anodd cefnogi pob ardal o ran y capasiti sydd ei angen. Bydd amrywiadau mewn angen ledled Cymru hefyd yn golygu y bydd gan rai ardaloedd fwy o anghenion nag eraill ac felly bydd angen iddynt ymrwymo i ragor o gamau gweithredu yn eu cynlluniau lleol. Dylai'r amrywiad hwn mewn angen (sy'n aml yn gysylltiedig ag amddifadedd) gael adnoddau priodol i gefnogi'r gwaith o roi'r cynlluniau lleol ar waith. Byddai angen canllawiau ar gwmpas cynlluniau lleol er mwyn sicrhau bod llai o risg o anghysondeb. |
| **23. A yw'r Bil drafft yn gwneud digon i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ymgynghori ynghylch eu cynlluniau bwyd lleol cyn iddynt gael ei llunio? Os nad yw, pa ddulliau eraill y byddech chi'n eu rhoi ar waith?** | Byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cefnogi bod yr ymgynghoriad ar y cynllun lleol yn ehangach na'r Comisiwn Bwyd i Gymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddem yn cefnogi'r gwaith o ymgynghori â sefydliadau partner lleol perthnasol ac yn annog ymgysylltu o'r dechrau er mwyn gallu cyd-lunio'r cynllun lleol gyda rhanddeiliaid perthnasol. |
| **24. A ydych yn credu bod darpariaethau'r Bil drafft sy'n ymwneud ag <u>adrodd ar</u> y cynlluniau bwyd lleol yn ddigonol? Os nad ydych, pa newidiadau yr hoffech chi eu gweld?** | Mae'r amserlenni arfaethedig ar gyfer adrodd yn ymddangos yn rhesymol. Byddem yn cwestiynu pa mor ymarferol fydd hi i bob corff cyhoeddus ymgynghori â'r Comisiwn Bwyd i Gymru cyn gwneud adroddiad yn erbyn eu cynllun bwyd lleol. Un ffordd arall o wneud hyn fyddai i'r Comisiwn Bwyd i Gymru ddarparu fframwaith ar gyfer adrodd ar gyflawniadau yn erbyn nodau a thargedau bwyd. |

| | |
|---|---|
| **25. A ydych yn credu bod darpariaethau'r Bil drafft sy'n ymwneud ag <u>adolygu</u>'r cynlluniau bwyd lleol yn ddigonol? Os nad ydych, pa newidiadau yr hoffech chi eu gweld?** | Ydym, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cytuno bod adolygu cynlluniau bwyd lleol bob pum mlynedd yn rhesymol. Mae'r amserlen hon yn rhoi digon o amser i roi newidiadau ar waith a chasglu tystiolaeth o effeithiolrwydd cyn adolygu'r cyflawniadau a nodi blaenoriaethau newydd ar gyfer newid. |
| **26. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y cynlluniau bwyd lleol, gan gynnwys goblygiadau'r cynigion o ran adnoddau a sut mae modd lleihau'r rhain?** | Bydd datblygu cynlluniau lleol yn effeithiol, monitro ac adrodd ar gynnydd yn dibynnu ar allu staff y sector cyhoeddus sydd eisoes dan bwysau. Gallai cynnig fframwaith ar gyfer datblygu cynllun bwyd ar gyfer pob ardal fod yn ddefnyddiol ochr yn ochr â chanllawiau posibl ar arweinyddiaeth leol. Mae angen cytundeb ar yr hyn sy'n gymwys fel cynllun 'lleol'. Dylid ystyried gwneud cynlluniau lleol yn gydnaws ag ardaloedd byrddau iechyd gan ganiatáu dull gweithredu ar sail system gyfan ar draws ardaloedd a sefydliadau Awdurdodau Lleol (gan gynnwys y diwydiant bwyd). Byddai angen cefnogi hyn gyda digon o adnoddau wedi'u henwi gan bob sefydliad partner. Byddai angen ystyried sut mae'r grwpiau cymunedol lleol a'r aelodau'n cael eu cynnwys er mwyn sicrhau bod yr angen lleol yn cael ei adlewyrchu yn y dull gweithredu hwn. |
| **27. A ydych yn cytuno â'r rhestr o bersonau a ddiffinnir fel 'corff cyhoeddus' at ddibenion y Bil hwn?** | Dylid ystyried cynnwys sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau dull gweithredu ar sail system gyfan ar gyfer y gwaith hwn. Byddem yn awgrymu defnyddio'r Cyrff Cyhoeddus fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 neu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 fel ffordd o wella hyn. Dylid hefyd cynnwys disgwyliadau'r sector preifat (cynhyrchwyr, gweithgynhyrchwyr, manwerthwyr ac ati) yn y Bil. |
| **28. A oes gennych chi unrhyw farn am y broses ar gyfer llunio rheoliadau fel y nodir yn y Bil?** | Dylid cyd-gynhyrchu rheoliadau gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod y targedau sydd ynddynt yn ymarferol, yn realistig ac ar gael fel mater o drefn er mwyn gallu adrodd. |
| **29. Oes gennych chi unrhyw farn am y dyddiad a gynigir ar** | Nid oes gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr unrhyw farn ar y dyddiad cychwyn a gynigir o dri mis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. |

| | |
|---|---|
| **gyfer cychwyn y Ddeddf?** | |